



## Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Fforest Glyn Cothi

Mae Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Fforest Glyn Cothi a sefydlwyd gan Glwstwr Twristiaeth Coedwig Brechfa a Mynydd Llanllwni yn codi ymwybyddiaeth am fywyd traddodiadol preswylwyr coedwigoedd a'r safleoedd treftadaeth naturiol a'r rhai adeiledig yng Nghoedwig Brechfa, Mynydd Llanllwni a'r cymunedau sy'n eu hamgylchynu.

Mae gwybodaeth am bobl leol enwog ac am safleoedd ysbrydol, crefyddol a safleoedd i dwristiaid ar gael yn ein llenyddiaeth ac ar ein gwefan:

**www.roam-brechfaforest-llanllwnimountain.co.uk**

**Arianwyd gan / Funded by**

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

RDP Sir Gâr

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Lewys Glyn Cothi

Ac yntau'n awdur ac yn areithydd cynhyrchiol, ystyrir y Bardd Lewys Glyn Cothi yn un o feirdd mwyaf dylanwadol ei gyfnod. Gan herio cyfreithiau gormesol y cyfnod, roedd ei gerddi'n ymbil am adfer hawliau i bobl Cymru.

Mae llawer o weithgarwch gwleidyddol Lewys Glyn Cothi yn destun cryn ddyfalu, yn arbennig ei gysylltiad â mynach crwydrol, a wnaeth yn y flwyddyn 1442 deithio trwy Gymru'n cynnal cynulliadau o'r enw cymmorthau!




*Lewys Glyn Cothi, 'Dychan i Wŷr o Gaer'*


Roedd Lewys Glyn Cothi (oddeutu. 1420 - 1490), a elwid hefyd yn Llywelyn y Glyn, yn fardd Cymraeg amlwg ac yn un o gynrychiolwyr pwysicaf Beirdd yr Uchelwyr neu'r Cywyddwyr, y beirdd proffesiynol crwydrol. Cafodd ei eni ar fferm Pwllcynbyd, ger pentre anghysbell Rhydycymerau ym mhlwyf Llanybydder. Cymerodd ei enw barddol o goedwig Glyn Cothi, man ei eni. Ei enw cyntaf oedd Llewelyn, ond roedd yn defnyddio'r enw "Lewys" fel arfer yn ei farddoniaeth. Mae tua dau gant tri deg o'i gerddi wedi'u cadw.

Y beirdd oedd 'dewiniaid delwedd' eu hoes, yn cynhyrchu barddoniaeth yn bennaf yn ôl gorchymyn eu noddwyr. Fodd bynnag, roedd eu gwaith hefyd yn adlewyrchu naws cymdeithas ac roedd ganddynt berthynas agos â rhai o brif wleidyddion y cyfnod. Un swyddogaeth bwysig y beirdd oedd hysbysebu ymgyrchoedd gwleidyddol arfaethedig, a hynny'n agored ar adegau ond weithiau yn y dirgel.


Castell Carreg Cennen

Lewys Glyn Cothi oedd un o brif feirdd cyfnod Rhyfel y Rhosynnau. Roedd llawer o'i broffwydoliaethau am bryd y byddai rheolwr Cymreig yn codi yn cyfateb i ddigwyddiadau y mae'n rhaid ei fod yn gwybod yr oeddent wedi'u cynllunio. O ddechrau'r rhyfel, Cymru oedd canolbwynt gweithgarwch y Tuduriaid, gyda hwy'n manteisio ar aflonyddwch sifil. Roedd gwrthryfel Owain Glyndŵr yn golygu bod llywodraeth Lloegr am lawer o flynyddoedd wedi cynnal byddin sylweddol o saethwyr a dynion arfog yn ardaloedd mwyaf anfodlon Cymru. Roedd llu o oddeutu mil o ddynion wedi'i leoli yn Ne Orllewin Cymru hyd yn oed pan oedd Lloegr yn colli'i dynion ymladd ar gyfer rhyfeloedd Ffrengig Harri'r V. Canlyniad arall gwrthryfel Owain Glyndŵr oedd ĉod o ddeddfau cosbi. Am lawer o genedlaethau, nid oedd Cymry yn cael prynu eiddo, gwasanaethu ar reithgorau, priodi Sais neu Saesnes neu ddal swydd o dan awdurdodaeth y Goron. Nid oedd modd cael Sais yn euog o drosedd ar air Cymro. Gallai unigolion oedd yn ddigon pwerus i gael eu hystyried yn fanteisiol o ran cynnal rheolaeth dros Gymru ddeisebu senedd Lloegr i gael eu cydnabod fel dinasyddion, ond bu i ran fwyaf y boblogaeth ddioddef.





Mewn un gerdd, mae Lewys Glyn Cothi yn ymbil ar Owen ap Griffith "Rhoi cyfraith berffaith i'r beilch, Rhoi devawd i'r rhai diveilch", mae'n apelio ar noddwr arall i "enyn y gyfraith unig i Gymru ". Gwelodd Lewys Glyn Cothi yn Edward IV ddisgynnydd i Gwladys Dywyll, merch Llywelyn Fawr; ac mae'n apelio iddo, "Cymro brenhinol," i'w gwaredu rhag gormes, a gwella sefyllfa'r werin bobl. Yn yr un modd, cafodd Harri o Richmond a ddaeth yn Harri VII gefnogwr brwd yn Lewys Glyn Cothi - nid oherwydd ei fod yn cynrychioli hawliadau Tŷ Lancastr, ond oherwydd mai ef oedd wŷr Owen Tudur. Roedd Owen Tudur, bonheddwr o Ynys Môn oedd yn olrhain ei achau yn ôl i'r hen frenin Cymreig, Cadwaladr, wedi priodi gweddw Harri V.

Credir nad oedd Lewys Glyn Cothi yn cyfyngu'i weithgareddau i ysgrifennu barddoniaeth. Roedd yn amlwg yn bresennol ym Mrwydr Mortimer's Cross. Mae'n debyg iddo weld y frwydr ei hun yng nghwmni Owen ap Gruffudd ap Nicolas, mab yswain amlwg o Sir Gaerfyrddin, ac yn ddiweddarach treuliodd Owen a Lewys gyfnod fel herwyr yn Eryri. Oddeutu1442 roedd unigolyn wedi bod yn teithio trwy Gymru wedi'i wisgo fel ynad, yn cynnal cynulliadau terfysglyd o'r enw cymmorthau, gan adrodd straeon a thraddodiadau Cymreig ac ysgogi'r bobl i wrthryfela. Mae tystiolaeth amgylchiadol yn awgrymu mai Lewys Glyn Cothi oedd hwn.